SWYDDOGOL

Heddlu Police
DYFED-POWYS

Cyfeirnod Rhyddid Gwybodaeth: 163/2021
Cais:

Ydych chi'n dal y wybodaeth ganlynol?

1. Mewn perthynas â'ch fflyd gyfan o gerbydau heddlu, a fyddech gystal â chadarnhau;
    a. Pa bolisïau yswiriant cerbyd sydd gyda chi, os o gwbl
    b. Pa fath o bolisi yswiriant ydyw (h.y. Hollgynhwysfawr neu Drydydd Parti)
    c. Pa fath o ddifrod/colled a gynhwysir gan bob polisi
    ch. Yn benodol, cadarnhewch pa un ai a oes unrhyw bolisi'n darparu ar gyfer iawndal a/neu unrhyw dâl ariannol arall ar gyfer anafiadau personol/colledion a brofir gan swyddogion heddlu sy'n gyrru cerbydau heddlu, sy'n cael eu hanafu yn ystod mesurau Erlid Tactegol a Chynnwys rhagataliol (gan gynnwys cysylltiad tactegol â cherbyd drwgdybyn, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny) a weithredir ganddynt.
    d. Yn benodol, cadarnhewch pa un ai a oes unrhyw bolisi'n darparu ar gyfer iawndal a/neu unrhyw dâl ariannol arall ar gyfer anafiadau personol/colledion a brofir gan swyddogion heddlu sy'n cael eu cludo fel teithiwr mewn cerbyd heddlu, sy'n cael eu hanafu yn ystod mesurau Erlid Tactegol a Chynnwys rhagataliol awdurdodedig (gan gynnwys cysylltiad tactegol â cherbyd drwgdybyn, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny) a weithredir gan yrrwr eu cerbyd heddlu.

2.) A oes gennych unrhyw bolisïau yswiriant eraill (nad ydynt yn ymwneud â cherbydau) sy'n darparu ar gyfer iawndal a/neu unrhyw dâl ariannol arall am golledion/anafiadau personol a brofir gan swyddogion heddlu sy'n cael eu hanafu o dan yr amgylchiadau a ddisgrifir yn 1ch. ac 1d. uchod? Os felly, rhowch fanylion y polisïau hynny a'r hyn maen nhw'n cynnwys.

Ymateb i Gwestiwn 1a:

Medraf gadarnhau bod Heddlu Dyfed-Powys yn dal y wybodaeth y gofynnwyd amdani, fel yr amlinellir isod:

Polisi Fflyd Moduron ar gyfer pob cerbyd.

Ymateb i Gwestiwn 1b:

Medraf gadarnhau bod Heddlu Dyfed-Powys yn dal y wybodaeth y gofynnwyd amdani, fel yr amlinellir isod:

Trydydd Parti yn Unig ar y brif fflyd o gerbydau Heddlu / gwarchodaeth Gynhwysfawr ar nifer cyfyngedig o Gerbydau Uwch Swyddogion.

SWYDDOGOL

Ymateb i Gwestiwn 1c:

Medraf gadarnhau bod Heddlu Dyfed-Powys yn dal y wybodaeth y gofynnwyd amdani, fel yr amlinellir isod:

Anaf neu ddifrod Trydydd Parti yn Unig ar y brif fflyd o gerbydau Heddlu / gwarchodaeth Gynhwysfawr ar nifer cyfyngedig o Gerbydau Uwch Swyddogion.

Ymateb i Gwestiwn 1ch:

Medraf gadarnhau bod Heddlu Dyfed-Powys yn dal y wybodaeth y gofynnwyd amdani, fel yr amlinellir isod:

Na. Fel arfer, byddai gyrwyr cerbydau'n cael eu cynnwys ym mholisi Atebolrwydd Cyflogwr, nid Polisi Fflyd Moduron.

Ymateb i Gwestiwn 1d:

Medraf gadarnhau bod Heddlu Dyfed-Powys yn dal y wybodaeth y gofynnwyd amdani, fel yr amlinellir isod:

Cynhwysir Atebolrwydd Teithwyr.

Ymateb i Gwestiwn 2:

Medraf gadarnhau bod Heddlu Dyfed-Powys yn dal y wybodaeth y gofynnwyd amdani, fel yr amlinellir isod:

Gwarchodaeth Atebolrwydd Cyflogwr ar gyfer Gyrwyr y Cerbydau, Terfyn Indemniad o £25,000,000 (dim ond yn berthnasol os profir ei fod yn atebol yn gyfreithiol ar gyfer unrhyw anaf)

O ganlyniad i'r systemau a fabwysiadwyd gan Heddlu Dyfed-Powys mewn perthynas â chofnodi gwybodaeth o'r fath, mae'n bosibl nad yw'r wybodaeth a ryddhawyd yn gywir.